

Deddf Cynllunio 2008

Adran 55 Derbyn Ceisiadau*

(Atodiad 3 [nodyn cyngor chwech: Paratoi a chyflwyno dogfennau cais](#))

(1) Bydd darpariaethau canlynol yr adran hon yn berthnasol pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael cais sy'n honni ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu.

(2) Bydd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, erbyn diwedd y cyfnod 28 niwrnod yn dechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael y cais, benderfynu p'un ai derbyn y cais ai peidio.

(3) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn y cais dim ond os yw ef neu hi yn dod i'r casgliad -

- (a) ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu,
- (b) [wedi'i ddileu]
- (c) bod angen caniatâd datblygu ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau y mae'r cais yn ymwneud â nhw,
- (d) [wedi'i ddileu]
- (e) bod yr ymgeisydd, o ran cais arfaethedig sydd bellach yn gais swyddogol, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio), a
- (f) bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon sy'n foddhaol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol.

(4) Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu p'un a all ddod i'r casgliad yn is-adran (3)(e), roi ystyriaeth i'r canlynol -

- (a) yr adroddiad ymgynghori a dderbyniwyd o dan adran 37(3)(c),
- (b) unrhyw gynrychiolaeth digonolrwydd ymgynghori a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol oddi wrth ymgynghorai sy'n awdurdod lleol, ac
- (c) i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 50.

(5) Yn is-adran (4) -

Mae "ymgynghorai sy'n awdurdod lleol" yn golygu -

- (a) awdurdod lleol yr ymgynghorwyd ag ef o dan adran 42(1)(b) ynglŷn â chais arfaethedig sydd bellach yn gais ffurfiol, neu
- (b) Awdurdod Llundain Fwyaf os ymgynghorwyd ag ef o dan adran 42(1)(c) ynglŷn â'r cais arfaethedig hwnnw;

Mae "cynrychiolaeth digonolrwydd ymgynghori" yn golygu cynrychiolaeth ynglŷn â ph'un a yw'r ymgeisydd wedi cydymffurfio, o ran y cais arfaethedig hwnnw, â dyletswyddau'r ymgeisydd o dan adrannau 42, 47 a 48.

(5A) Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, wrth benderfynu p'un a all ddod i'r casgliad yn is-adran (3)(f), roi ystyriaeth i'r graddau –

- a) y mae'r cais yn cydymffurfio â'r gofynion yn adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan adran 37(5) a
- b) bod unrhyw gyfarwyddyd perthnasol a roddwyd o dan adran 37(4) wedi'i ddilyn mewn perthynas â'r cais.

(6) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y cais, rhaid iddo roi gwybod i'r ymgeisydd fod y cais wedi'i dderbyn.

(7) Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn na ellir derbyn y cais, rhaid iddo -

- (a) roi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad, a
- (b) rhoi gwybod i'r ymgeisydd am resymau'r Ysgrifennydd Gwladol dros y penderfyniad hwnnw.

(8) Os bydd yr ymgeisydd yn addasu'r cais (neu'n addasu'r cais ymhellach) mewn ymateb, bydd is-adrannau (2) i (7) yn berthnasol i'r cais fel y'i haddaswyd.

* Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011

YMWADIAD – Mae hyn er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n ddogfen gais ffurfiol. Rhestr wirio anstatudol ydyw i'w chwblhau gan yr Arolygiaeth Gynllunio (y Gyfarwyddiaeth Cynllunio Seilwaith). Nid yw ei chwblhau na hunanasesu gan yr ymgeisydd o bwys yn ystod y cam derbyn.

DS: Gweler Cyfarwyddyd Ffurflen Gais yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol am arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflen gais a'r hyn y dylid ei gynnwys ynddi.

Adran 55 Derbyn Ceisiadau

Rhestr Wirio Cais Adran 55¹

Adran 55(2) Derbyn Ceisiadau					
1	O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl iddo gael y cais), rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu p'un ai derbyn y cais ai peidio.	Dyddiad derbyn	Dyddiad disgwyl 28 niwrnod	Dyddiad y penderfyniad	
		25/05/2018	22/06/2018	21/06/2018	
Adran 55(3) – caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dderbyn cais <u>dim ond</u> os yw ef neu hi yn dod i'r casgliad:-		Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio			
Adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c) Ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu					
2	<p>A yw'r datblygiad yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol² (NSIP) (neu a yw'n ffurfio rhan o NSIP); ac a yw'r cais yn datgan, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn gais am orchymyn caniatâd datblygu³ (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, neu eiriau cyfatebol? A yw'r cais yn nodi'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef (h.y. o fewn pa gategori neu categorïau yn adrannau 14-30 y mae cynllun y cais yn dod)?</p> <p>Os nad yw'r datblygiad yn dod o fewn y categorïau yn adrannau 14-30, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008 i'r datblygiad gael ei drin fel datblygiad y mae angen</p>	<p>Ydy.</p> <p>Mae'r datblygiad arfaethedig a amlinellir yn Atodlen 1 y DCO drafft (DCOd) (Dogfen 3.1) ar gyfer gorsaf gynhyrchu yng Nghymru ag allbwn trydanol cyfradd gros o hyd at 299MW, sy'n dod o fewn adran 14(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 ac yn fwy na'r trothwy 50MW a nodir yn adran 15(2) Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Mae hyn yn gyson â'r crynodeb a roddir ym Mluch 4 y Ffurflen Gais (Dogfen 1.2), sy'n dod i'r casgliad bod y cais ar gyfer NSIP, a hefyd yn esbonio:</p> <p><i>'Bydd Deddf Cymru 2017 yn trosglwyddo pwerau penderfynu o'r Ysgrifennydd Gwladol (o dan Ddeddf Cynllunio 2008) i Lywodraeth Cymru, o ran gorsafoedd cynhyrchu trydan hyd at gapasiti o 350MW. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn wedi dod i rym eto. Disgwylir i'r pwerau hyn gael eu datganoli ar 1 Ebrill 2019. Yn unol â hynny, y</i></p>			

¹ Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys cyfeiriadau (lle y bo'n berthnasol) at Gyfarwyddiaeth Ceisiadau a Chynlluniau Mawr yr Arolygiaeth Gynllunio sy'n cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â chaniatáu prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

² Diffinnir NSIP yn gyffredinol yn adran 14 ac amlinellir y trothwyon manwl ar gyfer pob un o'r categorïau penodol yn adrannau 15-30

³ Mae angen caniatâd datblygu ar gyfer datblygiad i'r graddau y mae'r datblygiad yn NSIP neu'n ffurfio rhan o NSIP (adran 31 Deddf Cynllunio 2008)

	caniatâd datblygu ar ei gyfer?	<i>gyfundrefn ganiatáu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig yw Deddf Cynllunio 2008 o hyd'.</i>
3	Crynodeb - adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c)	Darparwyd digon o dystiolaeth i ddangos bod y cais yn NSIP yn unol ag Adrannau 14(1) a 15(2) Deddf Cynllunio 2008.
Adran 55(3)(e) Bod yr ymgeisydd, o ran y cais a gyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio)		
4	Yn unol â'r Rheoliadau AEA ⁴ , a wnaeth yr ymgeisydd (cyn cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 42) naill ai (a) ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi barn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu (b) hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw?	<p>(a) Na.</p> <p>Ni ofynnodd yr Ymgeisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol roi barn sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.</p> <p>(b) Do.</p> <p>Cyflwynodd yr Ymgeisydd Adroddiad Cwmpasu AEA i'r Arolygiaeth ar 25 Mehefin 2014 fel y nodir ym mharagraffau 1.7.9 a 6.3.11 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0). Rhoddir copi o'r llythyr eglurhaol a gyflwynwyd gyda'r Adroddiad Cwmpasu yn Atodiad 3.A.I a'r Adroddiad yn Atodiad 3.A.II (Dogfen 5.2 - Cyfrol A).</p> <p>Gwnaed y cais cyn i'r ymgynghoriad a42 ddechrau ar 13 Hydref 2014.</p> <p>Cyhoeddwyd y Barn Gwmpasu ar 1 Awst 2014 (paragraff 6.3.14 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0)), ac fe'i darperir yn Atodiad 3.B.II (Dogfen 5.2 - Cyfrol A).</p> <p>Ym mharagraffau 8.3.1, 9.3.1 a 9.3.2 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0), mae'r Ymgeisydd yn esbonio, yn dilyn cyfarfod â'r Arolygiaeth ar 30 Mawrth 2017 i drafod dilysrwydd y Barn Gwmpasu AEA a gyhoeddwyd yn 2014, na fydd yn cyflwyno cais cwmpasu arall. Rhoddir y nodyn o'r cyfarfod yn Atodiad 7.A.I (Dogfen 5.2 - Cyfrol C).</p> <p>Mewn llythyr hysbysu a46, dyddiedig 9 Ionawr 2018, a roddir yn Atodiad 9.I.I (Dogfen 5.2 - Cyfrol D), dywedodd yr Ymgeisydd: '<i>Fel yr hysbyswyd yn flaenorol, mae APL yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig. Gofynnodd APL am farn gwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn 16 Mai 2017 ac,</i></p>

⁴ Rheoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), neu Reoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau AEA 2009) (Ile mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

		<i>yn unol â'r darpariaethau trosiannol yn Rheoliad 37(2)(a) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, bydd Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i gais APL am DCO.'</i>
5	A dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori ⁵ gan awdurdodau "A", "B", "C" a "D"; os felly, a ydynt yn cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 42, adran 47 ac adran 48?	<p>Do.</p> <p>Dinas a Sir Abertawe (yr awdurdod lleol perthnasol) yw'r awdurdod unedol. Felly, nid oes unrhyw awdurdodau 'C' na 'D'.</p> <p>Mae 1 awdurdod cynhaliol a 2 awdurdod cyfagos, y rhoddodd 2 ohonynt Ymatebion Digonolrwydd Ymgynghori yn cadarnhau naill ai bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan a42, a47 ac a48 Deddf Cynllunio 2008 a/neu fod ganddynt "ddim sylwadau". Y rhain oedd:</p> <p>Awdurdod Cynhaliol B – Dinas a Sir Abertawe</p> <p>Awdurdod Cyfagos A – Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot</p> <p>Gwahoddwyd, ond ni chafwyd, ymatebion gan yr awdurdod canlynol:</p> <p>Awdurdod Cyfagos A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Caerfyrddin <p>Mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus ac yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan A42, A47ac A48 Deddf Cynllunio 2008.</p>
Adran 42: Dyletswydd i Ymgynghori		
	A wnaeth yr ymgeisydd ymgynghori â'r unigolion perthnasol a amlinellir yn adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ynglŷn â'r cais arfaethedig?	
6	Adran 42(1)(a) unigolion rhagnodedig ⁶ ?	Do.

⁵ Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr adroddiad ymgynghori, ac unrhyw gynrychiolaethau digonolrwydd ymgynghori a dderbyniwyd

⁶ Amlinellir ymgynghoreion statudol yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Rhagnodedig) 2009

Cam 1

Cynhaliodd yr Ymgeisydd Ymgynghoriad Statudol Cam 1 o dan a42(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 gydag ymgynghoreion rhagnodedig rhwng 13 Hydref ac 16 Tachwedd 2014. Mae crynodeb o'r broses ym **mharagraffau 6.4.56 i 6.4.79** yr **Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0)**. Rhoddir y rhestr o ymgynghoreion yn **Atodiad 4.1.1 (Dogfen 5.2, Cyfrol B, Rhan IV)**.

Cam 2

Cynhaliodd yr Ymgeisydd Ymgynghoriad Statudol Cam 2 rhwng 16 Ionawr a 19 Chwefror 2018. Crynhoir y broses ym **mharagraffau 8.4.54 ac 8.4.81** yr **Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0)**. Rhoddir y rhestr o ymgynghoreion yn **Atodiad 9.G.1 (Dogfen 5.2 - Cyfrol D)**.

Amlygodd yr Ymgeisydd ddau Gyngor arall fel ymgynghoreion rhagnodedig at ddibenion Ymgynghoriad Statudol Cam 2, yn dilyn ymateb Dinas a Sir Abertawe i SoCC 2018 (**paragraff 8.4.59**). Y rhain yw:

- Cyngor Tref Lluchwr, a
- Chyngor Cymuned Pengelli a Waungron.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio wedi amlygu'r partïon canlynol yn seiliedig ar ddehongliad rhagofalus o'r rheoliadau, nad yw'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â nhw o dan a42. Y rhain yw:

1. Western Power Distribution Limited (South Wales) plc
2. Cadent Gas Limited
3. Energy Assets Pipelines Limited
4. Energy Assets Networks Limited
5. Energy Assets Power Networks Limited
6. Indigo Pipelines Limited (enw wedi'i newid o SSE)
7. G2 Energy IDNO Limited
8. Harlaxton Energy Networks Limited
9. Leep Electricity Networks Limited (Peel yn flaenorol)
10. Murphy Power Distribution Limited
11. UK Power Distribution Limited

		<p>12. Vattenfall Networks Limited</p> <p>Nid yw'n ymddangos bod Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yr Ymgeisydd yn rhoi esboniad clir ynglŷn â pham nad ymgynghorwyd â'r cyrff uchod. O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, ac o fabwysiadu dull rhagofalus er mwyn sicrhau bod pawb y gallai'r cais effeithio arnynt, neu sy'n debygol o fod â buddiant yn y cais o bosibl, yn cael cyfle i gyfranogi'n llawn wrth archwilio'r cais, mae'r Arolygiaeth yn awgrymu y dylai'r Ymgeisydd gynnwys y cyrff uchod ymhlith y rhai y bydd yn eu hysbysu am y cais a dderbyniwyd o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008, oni bai bod cyfiawnhad penodol pam nad oes angen gwneud hynny.</p> <p>Cyhoeddwyd cyngor a51 ynglŷn â'r mater hwn: http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010069-000484</p>
7	Adran 42(1)(aa) y Sefydliad Rheoli Morol ⁷ ?	Amherthnasol.
8	Adran 42(1)(b) pob awdurdod lleol o fewn adran 43 ⁸ ?	<p>Do.</p> <p>Cynhaliodd yr Ymgeisydd Ymgynghoriad A42 mewn dau gam (2014 a 2018).</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol o fewn a43 fel y disgrifir yn Adran Chwech yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0).</p> <p>Awdurdod Cynhaliol ('B'):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dinas a Sir Abertawe (B) <p>Awdurdodau Cyfagos ('A')</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Sir Caerfyrddin (A) • Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (A).

⁷ O ran unrhyw achos lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd a nodir yn adran 42(2) Deddf Cynllunio 2008, neu a fyddai'n debygol o effeithio arnynt

⁸ Dyma'r diffiniad o "awdurdod lleol" yn adran 43(3): Yr awdurdod "B" lle mae tir yr ymgeisydd o fewn ardal yr awdurdod; yr awdurdod "A" lle mae unrhyw ran o ffin ardal A hefyd yn rhan o ffin ardal B; yr awdurdod "C" (haen uwch) lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod hwnnw; yr awdurdod "D" lle mae awdurdod o'r fath yn rhannu ffin ag awdurdod "C"

		<p>Ym mharagraff 6.4.65, mae'r Ymgeisydd yn esbonio, o ganlyniad i strwythur gweinyddol awdurdodau lleol yng Nghymru, nad oes awdurdodau Categori C na D at ddiben ymgynghoriad a42.</p> <p>Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 8 Hydref 2014 a daeth i ben ar 16 Tachwedd 2014.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Cynhaliodd yr Ymgeisydd ymgynghoriad statudol a42 â'r un awdurdodau lleol ag a restrwyd ar gyfer Cam 1, yn unol â pharagraff 8.4.61 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0).</p>
9	Adran 42(1)(c) Awdurdod Llundain Fwyaf (os yw yn ardal Llundain Fwyaf)?	Amherthnasol.
10	Adran 42(1)(d) pob unigolyn o fewn un categori adran 44 neu fwy ⁹ ?	<p>Do.</p> <p><u>Cam 1</u></p> <p>Ymgynghorodd yr Ymgeisydd â phob unigolyn yng Nghategoriâu 1, 2 a 3 o dan a44 fel y disgrifir yn Adran Chwech (paragraffau 6.4.67 i 6.4.72) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) ar 13 Hydref 2014. Rhoddir y rhestr o fuddiannau tir yr ymgynghorwyd â nhw ac a hysbyswyd o dan a44(1)(d) yn Atodiad 4.I.I (Dogfen 5.2, Cyfrol B, Rhan IV).</p> <p><u>Cam 2</u></p> <p>Ymgynghorodd yr Ymgeisydd â phob unigolyn mewn un neu fwy o gategoriâu a44 fel y disgrifir yn Adran Wyth (paragraffau 8.4.62 i 8.4.64) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) ar 16 Ionawr 2018. Rhoddir y rhestr o fuddiannau tir yr ymgynghorwyd â nhw ac a hysbyswyd yn Atodiad 9.G.I (Dogfen 5.2 - Cyfrol D).</p> <p>Mae'n ymddangos bod nifer o bartïon a gafodd eu hysbysu yn ystod Ymgynghoriad Statudol Cam 2 (rhoddir y rhestr yn Atodiad 2.G.I (Dogfen 5.2 - Cyfrol D)) heb cael</p>

⁹ Categori 1: perchennog, deiliad prydles, tenant neu feddiannwr tir; Categori 2: unigolyn sydd â buddiant yn y tir neu sydd â'r pŵer i werthu a throsglwyddo'r tir neu ryddhau'r tir; Categori 3: unigolyn sydd â hawl i wneud hawliad perthnasol. Nid oes gofyniad i wirio cywirdeb y rhestr(au) na ph'un a yw'r ymgeisydd wedi gwneud ymholiadau diwyd

	cael eu cynnwys yn y Llyfr Cyfeirio (Dogfen 4.3) : Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl bartïon y mae angen iddynt fod yn y Llyfr Cyfeirio wedi'u rhestru ynddo, a hefyd hysbysu pawb y mae angen eu hysbysu o'r cais a dderbyniwyd o dan a56 Deddf Cynllunio 2008, a sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at yr archwiliad. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd hefyd wirio'r sillafiad cywir a diwygio'r Llyfr Cyfeirio os bydd angen.
--	--

Adran 45: Amserlen ar gyfer Ymgynghoriad adran 42

11	A oedd yr ymgeisydd wedi hysbysu ymgynghoreion adran 42 o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad; ac, os felly, a oedd y dyddiad cau a nodwyd gan yr ymgeisydd yn rhoi 28 niwrnod neu fwy iddynt ymateb, yn dechrau y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn y dogfennau ymgynghori?	<p>Oedd.</p> <p><u>Cam 1</u></p> <p>Anfonwyd y llythyr dyddiedig 8 Hydref 2014, ynghyd â'r deunydd ymgynghori, at ymgynghoreion a42. Roedd yn cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 16 Tachwedd 2013, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42. Rhoddir copi Saesneg o'r llythyr hysbysu yn Atodiad 4.I.II (Dogfen 5.2 - Cyfrol B, Rhan IV). Rhoddir copi Cymraeg o'r llythyr yn Atodiad 4.I.III.</p> <p>Nodwyd y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad yn y dogfennau canlynol hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad SoCC 2014 a SoCC cyhoeddedig 2014 a roddir yn Atodiadau 4.A.V i 4.A.VIII (Dogfen 5.2 - Cyfrol B, Rhan Un); • Hysbysiad a48 a roddir yn Atodiadau 4.G.I i 4.G.IV (Dogfen 5.2 - Cyfrol B, Rhan Pedwar); <p>Ym mharagraffau 6.4.74 a 6.4.75 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0), esboniodd yr Ymgeisydd nad oedd ei gludwr wedi gallu anfon nifer fach o lythyrau ymgynghori; anfonwyd y rhain â llaw wedi hynny ar 16 Hydref 2014. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r rhai yr oedd yr ailanfon hwn wedi effeithio arnynt dan anfantais oherwydd bod y cyfnod lleiaf o 28 niwrnod ar ôl i ymateb, yn dechrau'r diwrnod ar ôl derbyn y deunydd ymgynghori.</p> <p>Ym mharagraffau 6.4.76 i 6.4.79, mae'r Ymgeisydd yn esbonio bod partïon a(44)(1)(d) ychwanegol wedi cael eu hamlygu yn dilyn ymholiadau diwyd parhaus. Ymgynghorwyd</p>
----	--	---

â'r partion ychwanegol ar y dyddiadau canlynol, a rhoddwyd cyfnodau ymgynghori unigol iddynt o 28 niwrnod o leiaf:

- 22 Rhagfyr 2014 – gofynnwyd am sylwadau erbyn 23 Ionawr 2015,
- 14 Ionawr 2015 – gofynnwyd am sylwadau erbyn 13 Chwefror 2015,
- 26 Ionawr 2015 – gofynnwyd am sylwadau erbyn 23 Chwefror 2015,
- 11 Chwefror 2015 – gofynnwyd am sylwadau erbyn 10 Mawrth 2015,
- 12 Chwefror 2015 – gofynnwyd am sylwadau erbyn 11 Mawrth 2015.

Rhoddir copi o dempled y llythyr eglurhaol yn **Atodiadau 4.I.IV a 4.I.V (Dogfen 5.2 - Cyfrol B, Rhan 4)**.

Cam 2

Anfonwyd y llythyr dyddiedig 5 Ionawr 2018, ynghyd â'r deunydd ymgynghori, at ymgynghoreion a42. Roedd yn cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymateb oedd 19 Chwefror 2018, sy'n fwy na 28 niwrnod ar ôl dyddiad y llythyr hysbysu a42. Rhoddir copïau Cymraeg a Saesneg o'r llythyr a anfonwyd at ymgynghoreion yn **Atodiadau 9.G.II i 9.G.V (Dogfen 5.2 - Cyfrol D)**.

Nodwyd y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad yn y dogfennau canlynol hefyd:

- Hysbysiad SoCC 2018 a SoCC cyhoeddedig 2018, a roddir yn **Atodiadau 9.B.I i 9.B. IV (Dogfen 5.2 - Cyfrol D)**,
- Hysbysiad a48 a roddir yn **Atodiadau 9.F.I i 9.F.VI (Dogfen 5.2 - Cyfrol D)**.

Esboniodd yr Ymgeisydd ym **mharagraffau 8.4.72 ac 8.4.73 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0)** y bu angen ailanfon neu ailgyfeirio nifer fach o lythyrau ymgynghori. Ailanfonwyd y rhain i gyd ac fe'u derbyniwyd erbyn 19 Ionawr 2018, a oedd yn caniatáu cyfnod o 28 niwrnod neu fwy i gyflwyno ymatebion, yn dechrau'r diwrnod ar ôl derbyn y dogfennau ymgynghori.

Ym **mharagraff 8.4.74**, datganodd yr Ymgeisydd fod pedwar tiffeddiannwr ychwanegol wedi cael eu hamlygu yn dilyn ymholiadau diwyd. Anfonwyd deunydd ymgynghori atynt ar 22 Ionawr 2018 a rhoddwyd hyd at 27 Chwefror 2018 iddynt ymateb, sy'n fwy na'r cyfnod lleiaf o 28 niwrnod. Rhoddir copïau o'r llythyrau eglurhaol Cymraeg a Saesneg

		<p>yn Atodiadau 9.G.VI a 9.G.VII (Dogfen 5.2 - Cyfrol D).</p> <p>Ar ôl i'r ymgynghoriad statudol ddechrau, sylwodd yr Ymgeisydd ar gamgymeriad yn Ffigur 8.3 PEIR 2018 yn ymwneud â rhifo coetiroedd hynafol yn anghywir. Felly, anfonwyd Ffigur 8.3 arall yn ei le at yr holl ymgynghoreion rhagnodedig, ynghyd â llythyr eglurhaol, ar 30 Ionawr 2018. Esbonnir hyn ym mharagraffau 8.4.75 i 8.4.79 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0), a rhoddir y llythyr yn Atodiad 9.G.IX (Dogfen 5.2 - Cyfrol D).</p> <p>Er nad ymestynnwyd dyddiad cau'r ymgynghoriad, nid ystyrir bod hyn wedi achosi anfantais i unrhyw barti gan fod yr Ymgeisydd wedi cywiro mân gamgymeriad yn unig.</p> <p>Mae paragraff 8.4.80 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn esbonio, ar ôl diwedd yr ymgynghoriad Cam 2, fod parti ychwanegol â buddiant tir wedi cael ei amlygu nad ymgynghorwyd ag ef (HSBC Bank Plc) yn ystod y Cam hwnnw. Ymgynghorwyd â HSBC Bank Plc yn ystod yr ymgynghoriad Cam 1 ac ni chafwyd ymateb. Fe'i gadawyd allan o'r ymgynghoriad Cam 2 ar gam. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd wedi ysgrifennu at HSBC Bank Plc ers hynny, gan roi copi o'r dogfennau a gafodd y partion eraill ar gyfer yr ymgynghoriad Cam 2, a chadarnhau y bydd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw hysbysiad o dan a56 os derbynnir y cais i'w archwilio. Fel y cyfryw, nid ystyrir bod buddiannau HSBC Bank Plc wedi cael eu niweidio oherwydd iddo gael ei adael allan o'r ymgynghoriad Cam 2.</p>
<p>Adran 46: Dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig</p>		
12	<p>A gyflenwodd yr ymgeisydd wybodaeth i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o'r cais arfaethedig; ac, os felly, a gyflwynwyd y wybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ymgynghoreion adran 42 neu cyn hynny? A wnaed hyn wrth ddechrau ymgynghori o dan adran 42 neu cyn hynny?</p>	<p>Do.</p> <p><u>Cam 1</u></p> <p>Rhoddodd yr Ymgeisydd hysbysiad o dan a46 ar 8 Hydref 2014, cyn i'r ymgynghoriad a42 ddechrau.</p> <p><u>Cam 2</u></p> <p>Mae Adran 1.8.1 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.10) yn datgan:</p> <p><i>'Ar ôl i Drax gaffael APL ym mis Rhagfyr 2016, "ail-lansiwyd" y Prosiect yn gyhoeddus ym mis Ebrill 2017'.</i></p> <p>Rhoddodd yr Ymgeisydd hysbysiad o dan a46 ar 9 Ionawr 2018, cyn i'r ymgynghoriad</p>

		<p>a42 ddechrau. Gellir ei weld yn Atodiad 9.I yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2). Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 16 Ionawr 2018 a daeth i ben ar 19 Chwefror 2018, sef cyfnod o 32 diwrnod.</p> <p>Rhodddwyd hysbysiad arall i'r Arolygiaeth ar 29 Ionawr 2018 (Atodiad 9.I.III yr Adroddiad Ymgynghori – Dogfen 5.2) yn amlygu anghysondebau mewn ffigur PEIR 2018 ac yn rhoi copi o'r llythyr eglurhaol a anfonwyd at yr holl ymgynghoreion a42 ynglŷn â'r ffigur newydd.</p>
--	--	---

Adran 47: Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol

13	<p>A baratôdd yr ymgeisydd ddatganiad ymgynghori â'r gymuned (SoCC) ynglŷn â sut yr oedd yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir?</p>	<p>Do.</p> <p><u>Cam 1 – Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) 2014</u></p> <p>Mae'r SoCC cyhoeddedig, a baratowyd ar gyfer Ymgynghoriad Cam 1 yn 2014, yn atodiadau 4.A.V a 4.A.VI yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B Rhan Un).</p> <p>Mae Atodiad 4.A.V Atodiadau'r Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B Rhan Un) yn cadarnhau'r ardaloedd yr oedd yr Ymgeisydd wedi'u cynnwys yn ei ymgynghoriad – y Parth Ymgynghori Craidd a'r Parth Ymgynghori Allanol (mae hyn hefyd yn cynnwys radiws pob parth o'r safle). Mae'r adran hon hefyd yn nodi mai'r cyfnod ymgynghori yw “<i>13 Hydref 2014 tan 16 Tachwedd 2014</i>”.</p> <p>Mae paragraffau 6.4.5 – 6.4.23 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal y SoCC.</p> <p><u>Cam 2 – Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC)2018</u></p> <p>Mae'r SoCC cyhoeddedig, a baratowyd ar gyfer Ymgynghoriad Cam 2 yn 2018, yn atodiadau 9.B.I a 9.B.II yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol D).</p> <p>Mae Atodiad 9.B.I yn datgan y bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau am 35 niwrnod rhwng “<i>16 Ionawr 2018 a 19 Chwefror 2018</i>”. Mae hefyd yn esbonio sut y bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar draws dwy ardal; y Parth Ymgynghori Craidd a'r Parth Ymgynghori Allanol.</p> <p>Mae paragraffau 1.8.11 i 1.8.13 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn</p>
----	--	---

		amlinellu sut y cynhaliwyd y SoCC a sut y'i cyhoeddwyd.
14	A ymgynghorwyd ag awdurdodau "B" a (lle y bo'n berthnasol) "C" ynglŷn â chynnwys y SoCC; os felly, a oedd y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yn rhoi 28 niwrnod, yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd awdurdodau "B" a (lle y bo'n berthnasol) "C" wedi derbyn y dogfennau ymgynghori?	<p>Do.</p> <p>Dinas a Sir Abertawe, sef yr awdurdod "B" (nid oes unrhyw awdurdodau "C" perthnasol).</p> <p><u>SoCC Cam 1</u></p> <p>Mae paragraffau 6.4.5 - 6.4.23 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn rhoi manylion yr ymgynghoriad statudol â Dinas a Sir Abertawe a gynhaliwyd ynglŷn â SoCC 2014.</p> <p>Mae Atodiad 4.A.I yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B, Rhan Un) yn cynnwys y llythyr eglurhaol a anfonwyd at Ddinas a Sir Abertawe gyda'r SoCC. Mae'n datgan:</p> <p><i>'Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymateb y Cyngor yw diwedd y cyfnod 28 niwrnod sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Cyngor yn derbyn y dogfennau atodedig.'</i></p> <p><u>SoCC Cam 2</u></p> <p>Mae paragraffau 8.4.17 – 8.4.20 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn rhoi manylion yr ymgynghoriad statudol â Dinas a Sir Abertawe a gynhaliwyd ynglŷn â SoCC 2018.</p> <p>Mae Atodiad 9.A.I yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2) yn cynnwys y neges e-bost eglurhaol a anfonwyd at Ddinas a Sir Abertawe gyda'r SoCC. Mae'n datgan:</p> <p><i>'Y dyddiad cau ar gyfer gwneud sylwadau yw diwedd y cyfnod 28 niwrnod sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r Cyngor yn derbyn y ddogfen.'</i></p> <p>Rhoddodd Dinas a Sir Abertawe ei ymateb statudol i'r SoCC ar 1 Rhagfyr 2017. Mae wedi'i gynnwys yn Atodiad 9.A.VII yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B).</p>
15	A yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC?	Ydy.

		<p><u>Yr ymateb i SoCC Cam 1</u></p> <p>Mae Atodiad 4.A.IV yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B) yn rhoi copi o ymateb Dinas a Sir Abertawe, dyddiedig 27 Awst 2014. Yn dilyn ymateb Dinas a Sir Abertawe, rhoddodd yr Ymgeisydd gopïau o ddogfennau ar adnau yn swyddfeydd Dinas a Sir Abertawe ym Mhenllergaer.</p> <p><u>Yr ymateb i SoCC Cam 2</u></p> <p>Mae Atodiad B 9.A.VII yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol D) yn rhoi copi o ymateb Dinas a Sir Abertawe, dyddiedig 1 Rhagfyr 2017. Mae Atodiad 9.A VIII yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol D) yn rhoi copi o ymateb yr Ymgeisydd i Ddinas a Sir Abertawe, dyddiedig 7 Rhagfyr 2017. Mae hwn yn cynnwys tabl sy'n rhestru sylwadau Dinas a Sir Abertawe a sut yr aethpwyd i'r afael â nhw.</p>
16	<p>A sicrhawyd bod y SoCC ar gael i'w archwilio mewn ffordd sy'n gymharol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir; ac a gyhoeddwyd hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r tir yn datgan ble a phryd y gellir archwilio'r SoCC?</p>	<p>Do.</p> <p><u>SoCC Cam 1</u></p> <p>Sicrhawyd bod SoCC 2014 ar gael mewn manau rhesymol gyfleus, o ystyried lleoliad y cynllun. Mae paragraff 6.4.23 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn esbonio bod hysbysiadau a oedd yn datgan pryd a ble y gellid archwilio'r SoCC wedi cael eu cyhoeddi yn y:</p> <ul style="list-style-type: none"> • South Wales Evening Post: 30 Medi 2014 • South Wales Evening Post: 7 Hydref 2014 <p>Mae copi o'r hysbysiadau cyhoeddiedig yn Atodiad 4.A.VII (Saesneg) a 4.A.VIII (Cymraeg) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B, Rhan Un).</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Sicrhawyd bod SoCC 2018 ar gael mewn manau rhesymol gyfleus, o ystyried lleoliad y cynllun. Mae paragraff 8.4.21 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn esbonio bod hysbysiadau a oedd yn datgan pryd a ble y gellid archwilio'r SoCC wedi cael eu cyhoeddi yn y:</p> <ul style="list-style-type: none"> • South Wales Evening Post: 2 Ionawr 2018 • South Wales Evening Post: 9 Ionawr 2018

		Mae copi o'r hysbysiadau cyhoeddedig yn Atodiad 9.B.I (Saesneg) a 9.B.II (Cymraeg) yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol D) .
17	A yw'r SoCC yn nodi p'un a yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA ¹⁰ ; ac a yw'n amlinellu sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ac ymgynghori arni?	<p>Ydy.</p> <p><u>SoCC Cam 1</u></p> <p>Mae tudalen 5 SoCC 2014, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiadau 4.A.V a 4.A.VI yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B), yn esbonio natur a diben PEIR 2014 a lle'r oedd ar gael i'w weld.</p> <p><u>SoCC Cam 2</u></p> <p>Mae tudalen 7 SoCC 2018, sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 9.B.I yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol D), yn amlinellu diben y PEIR a'i gyhoeddi a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd arno yn rhan o broses ymgynghori statudol Cam 2.</p>
18	A yw'r ymgeisydd wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC?	<p>Ydy.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u></p> <p>Mae Atodiad 4.B yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B) yn cynnwys rhestr wirio cydymffurfio SoCC 2014 a baratowyd gan yr Ymgeisydd, sy'n dangos sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â SoCC 2014.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Mae Atodiad 9.C yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol D) yn cynnwys rhestr wirio cydymffurfio SoCC 2018 a baratowyd gan yr Ymgeisydd, sy'n dangos sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â SoCC 2018.</p>
Adran 48: Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig		

¹⁰ Rheoliad 12 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 10 Rheoliadau AEA 2009 (Ile mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

19	A roddodd yr ymgeisydd gyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig, o dan adran 48, yn y modd a ragnodir yn Rheoliad 4(2) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) (CFfGR) 2009?	<p>Do.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u></p> <p>Mae Atodiad 4.G yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol B) yn rhoi copïau dyddiedig o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn Saesneg ac yn Gymraeg.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Mae Atodiad 9.F yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol D) yn rhoi copïau dyddiedig o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn Saesneg ac yn Gymraeg.</p>	
		<i>Papur(au) newyddion</i>	<i>Dyddiad</i>
am ddwy wythnos yn olynol o leiaf mewn un papur newydd lleol neu fwy sy'n cylchredeg yn y cyffiniau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli ynddynt;		<p>Dyddiadau Cam 1:</p> <ul style="list-style-type: none"> • South Wales Evening Post • South Wales Evening Post <p>Dyddiadau Cam 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> • South Wales Evening Post • South Wales Evening Post 	<p>06/10/2014</p> <p>13/10/2014</p> <p>02/01/2018</p> <p>09/02/2018</p>
unwaith mewn papur newydd cenedlaethol;		<p>Dyddiad Cam 1:</p> <p>The Independent</p> <p>Dyddiad Cam 2:</p> <p>The Times</p>	<p>06/10/2014</p> <p>09/01/2018</p>
unwaith yn Gazette Llundain ac, os yw'r datblygiad yn effeithio ar dir yn yr Alban, Gazette Caeredin; a		<p>Dyddiad Cam 1:</p> <p>Gazette Llundain</p> <p>Dyddiad Cam 2:</p> <p>Gazette Llundain</p>	<p>06/10/2014</p> <p>09/01/2018</p>

	Ile mae'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad ar y môr – (i) unwaith yn Rhestr Lloyds; ac (ii) unwaith mewn cyfnodolyn masnach pysgota priodol?	Amherthnasol		Amherthnasol	
20	A oedd yr hysbysiad adran 48 yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn Rheoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR?	<p>Oedd.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u></p> <p>Mae Atodiad 4.G yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 - Cyfrol B) yn rhoi copïau dyddiedig o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Mae Atodiad 9.F yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol D) yn rhoi copïau dyddiedig o'r hysbysiadau a48 a gyhoeddwyd yn Saesneg ac yn Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR.</p>			
	Gwybodaeth	Paragraff		Gwybodaeth	Paragraff
a)	Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd.	<u>Cam 1</u> Paragraff 1 <u>Cam 2</u> Paragraff 1	b)	Datganiad bod yr ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu	<u>Cam 1</u> Paragraff 1 <u>Cam 2</u> Paragraff 1
c)	datganiad ynghylch p'un a yw'r cais yn ddatblygiad AEA	<u>Cam 1</u> Paragraff 5 <u>Cam 2</u> Paragraff 6	d)	crynodeb o'r prif gynigion, gan nodi lleoliad neu lwybr y datblygiad arfaethedig	<u>Cam 1</u> Paragraff 4 – 4 B xi <u>Cam 2</u> Paragraffau 3

					– 3 B xv
e)	datganiad bod y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y datblygiad arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y manau (gan gynnwys o leiaf un cyfeiriad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig) ac ar yr amserau a nodwyd yn yr hysbysiad	<u>Cam 1</u> Paragraffau 7 ac 8 <u>Cam 2</u> Paragraffau 7, 8 a 9	f)	y dyddiad olaf y bydd y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau hynny ar gael i'w harchwilio	<u>Cam 1</u> Paragraffau 7 ac 8 <u>Cam 2</u> Paragraffau 7 ac 8
g)	p'un a godir tâl am gopïau o unrhyw un o'r dogfennau, y cynlluniau neu'r mapiau, a swm unrhyw dâl	<u>Cam 1</u> Paragraff 9 <u>Cam 2</u> Paragraff 10	h)	manylion sut i ymateb i'r cyhoeddusrwydd	<u>Cam 1</u> Paragraff 10 <u>Cam 2</u> Paragraff 11
i)	terfyn amser ar gyfer derbyn yr ymatebion hynny gan yr ymgeisydd, nad yw'n llai na 28 niwrnod ar ôl dyddiad olaf cyhoeddi'r hysbysiad	<u>Cam 1</u> Paragraff 12 <u>Cam 2</u> Paragraff 13			
21	A oes unrhyw arsylwadau mewn perthynas â'r hysbysiad adran 48 a ddarparwyd uchod?				
	Dim				
22	A anfonwyd copi o'r hysbysiad adran 48 at y cyrff ymgynghori AEA ac unrhyw unigolyn yr hysbyswyd yr ymgeisydd amdano yn unol â'r Rheoliadau AEA ¹¹ ?	Do. <u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u> Mae paragraffau 6.4.51 i 6.4.53 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn esbonio			

¹¹ Rheoliad 13 Rheoliadau AEA 2017, neu Reoliad 11 Rheoliadau AEA 2009 (lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol).

		<p>bod copi o'r Hysbysiad a48 wedi cael ei roi i'r cyrff ymgynghori a'r unigolion yr hysbyswyd yr Ymgeisydd amdanynt o dan Reoliad 9(1)(c) y Rheoliadau AEA ar 2 Hydref 2014.</p> <p>Mae Atodiadau 4.G.V, 4.G.VI a 4.H.I yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol B), yn rhoi copi o'r hysbysiad a'r llythyrau a anfonwyd at ymgynghoreion.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Mae paragraffau 8.4.52 i 8.4.53 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn esbonio bod copi o'r Hysbysiad a48 wedi cael ei roi i'r cyrff ymgynghori a'r unigolion yr hysbyswyd yr Ymgeisydd amdanynt o dan Reoliad 9(1)(c) y Rheoliadau AEA ar 2 Ionawr 2018.</p> <p>Mae Atodiadau 9.F.I, 9.F.II a 9.F.VII yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.2 – Cyfrol D), yn rhoi copi o'r hysbysiad a'r llythyrau a anfonwyd at ymgynghoreion.</p>
<p>Adran 49: Dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghori a chyhoedduswydd</p>		
23	<p>A yw'r ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad adran 42, adran 47 ac adran 48?</p>	<p>Ydy.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 1</u></p> <p>Cyflwynodd yr Ymgeisydd grynodedb o'r adborth ymgynghori a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad a42, a47 ac a48 ym Mhennod 7 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0). Rhoddir adborth ymgynghori mewn perthynas ag a47 ac a42, ac ymatebion yr Ymgeisydd, yn Atodiadau 6.B a 6.D (Dogfen 5.2 - Cyfrol C).</p> <p>Ym mharagraff 7.4.27, cadarnhaodd yr Ymgeisydd na chafodd unrhyw ymatebion ymgynghori a nododd eu bod yn ymateb yn benodol i a48 yn gyhoeddus. Felly, mae'r Ymgeisydd wedi ystyried y gallai rhai ymatebion a47 fod yn ymatebion a48 hefyd.</p> <p><u>Ymgynghoriad Statudol Cam 2</u></p> <p>Mae Pennod 9 yr Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0) yn crynhoi'r adborth ymgynghori a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad a42, a47 ac a48. Rhoddir</p>

ymatebion a gafwyd, a sylwadau'r Ymgeisydd, yn **Atodiadau 11.A ac 11.C (Dogfen 5.2 - Cyfrol E)**.

Mae **Pennod 10** yr **Adroddiad Ymgynghori (Dogfen 5.1.0)** yn esbonio sut oedd yr ymatebion ymgynghori wedi helpu i esblygu'r Prosiect. Mae **paragraff 10.1.13** yn esbonio:

I grynhoi, roedd yr adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad Cam 1 a Cham 2 wedi llywio datblygiad y Prosiect yn y ffyrdd canlynol:

- *Diwygio lleoliadau ar gyfer arddangos deunydd ymgynghori;*
